Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006

Bu'r Pwyllgor yn ystyried *Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006* yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2006.

Cafodd yr Aelodau eu briffio ar y prif wahaniaethau rhwng yr Offeryn Statudol a gynigir ar gyfer Cymru a'r un sydd eisoes mewn grym yn Lloegr, sef:

- Y gofyniad am ddatganiadau dylunio a datganiadau hygyrchedd ar y cyd. Bydd y diwygiadau a gynigir i'r Gorchymyn yn cyflwyno datganiadau hygyrchedd ond nid yn cynnwys gofyniad i baratoi datganiadau dylunio.
- Yr angen i nodi pa ymgynghoriadau, os o gwbl, a gynhaliwyd ar faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd.

Trafodwyd y gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo *Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Cymru) 2006 heb eu diwygio*.

Glyn Davies AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunioa Chefn Gwlad